| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD :** | **4 Mawrth 2021** |
| **TEITL :** | **Ail-benodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae pump 'aelod annibynnol' (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol) ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynnwys aelod yn cynrychioli'r cynghorau cymuned a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Mae tymor aelodaeth un o'r aelodau annibynnol, sef David Wareing, yn dod i ben ar 4 Mawrth 2021.

3. Mae'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) yn caniatáu ail-benodi aelodau annibynnol am un cyfnod olynol, pellach o ddim mwy na phedair blynedd. Mae'r aelod yn gymwys i'w ail-benodi, ac wedi mynegi ei barodrwydd i wasanaethu am gyfnod pellach. Byddai ei ail benodi yn golygu na fyddai'r Pwyllgor yn colli'r profiad a'r arbenigedd y mae wedi ei ennill yn ystod ei wasanaeth.

4. Tra bod rhaid dilyn trefn statudol o hysbysebu a chyfweld cyn penodi aelod annibynnol newydd, nid oes angen dilyn y broses honno wrth ail-benodi.

**Argymhelliad**

5. Ail benodi David Wareing fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd.

**Sylwadau Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad.

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.